WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

2009-10

Mehefin 2010

**Awdur: Gillian Body, Archwilydd Cyffredinol Cymru** **Cyf: 333A2010**

# Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (ABM)

## Llythyr Archwilio Interim 2009-10 i gyrff rhagflaenol

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Crynodeb** | 4 |
| **Llythyr Manwl** | |
| **Defnyddiwyd adnoddau'r cyrff rhagflaenol yn briodol ymhob ffordd berthnasol a rhoddwyd cyfrif priodol amdanynt ar gyfer y cyfnod o chwe mis a ddaeth i ben 30 Medi 2009** | 7 |
| Cafodd cyfrifon chwe mis pob corff rhagflaenol ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 30 Medi 2009 eu paratoi'n briodol ac roeddent yn gywir ymhob ffordd berthnasol, er i ni dynnu sylw at yr ansicrwydd ynghylch costau gofal iechyd parhaus | 7 |
| Noda sefyllfa alldro cyfun y cyrff rhagflaenol a'r rhagolygon ariannol hyd at ddiwedd y flwyddyn bod y Bwrdd Iechyd newydd yn wynebu pwysau ariannol sylweddol yn 2010 a thu hwnt | 8 |
| Roedd systemau ariannol pwysig y cyrff rhagflaenol yn gyffredinol addas at y diben ar gyfer cyfnod cau'r cyfrifon | 9 |
| **Roedd gan y cyrff rhagflaenol drefniadau corfforaethol priodol ar waith i'w helpu i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol, ond bydd angen i'r Bwrdd Iechyd ymdrin â nifer o heriau ac mae camau gweithredu pellach yn hanfodol er mwyn atgyfnerthu'r trefniadau llywodraethu a rheoli risg** | 9 |
| Er nad oedd gwendidau sylweddol yn nhrefniadau'r cyrff rhagflaenol i'w helpu i gyflawni darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau, roedd rhai meysydd lle roedd angen gwneud mwy o gynnydd | 9 |
| Mae angen gwelliannau cadarn a pharhaus o ran trefniadau rheoli risg yr hen Ymddiriedolaeth | 10 |
| Mae'r gwaith archwilio perfformiad diweddar a gynhaliwyd yn y sefydliadau sy'n dirwyn i ben yn amlygu nifer o heriau y bydd angen i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â hwy | 11 |
| **Atodiadau** | |
| Casgliadau ar drefniadau'r cyrff rhagflaenol ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 30 Medi 2009 i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran eu defnydd o adnoddau | 14 |
| Meini prawf ar gyfer asesu trefniadau'r cyrff rhagflaenol yn ystod y chwe mis a ddaeth i ben 30 Medi 2009 i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran eu defnydd o adnoddau | 15 |
| Adroddiadau a gyflwynwyd ers mis Medi 2009 | 16 |

## Statws yr adroddiad hwn

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

## Crynodeb

1. Mae'r Llythyr Archwilio Blynyddol interim hwn i Fwrdd Iechyd Lleol newydd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (y Bwrdd Iechyd) yn ymwneud â'm harchwiliadau terfynol o'i gyrff rhagflaenol ar gyfer y cyfnod o chwe mis hyd at 30 Medi 2009. Nodwyd y gwaith y sonnir amdano yn y llythyr yn y Strategaethau Archwilio y cytunwyd arnynt ar gyfer y sefydliadau canlynol:
    - Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
    - Bwrdd Iechyd Lleol Abertawe
    - Bwrdd Iechyd Lleol Castell-nedd Port Talbot
    - Bwrdd Iechyd Lleol Pen-y-bont ar Ogwr
2. Mae'r Llythyr hwn yn hysbysu aelodau'r Bwrdd Iechyd o unrhyw faterion o bwys sy'n codi o'r archwiliadau hynny, ynghyd â'm sylwadau ar faterion cyfredol eraill.
3. Wynebodd rhagflaenwyr y Bwrdd Iechyd newidiadau a heriau sylweddol yn eu chwe mis olaf. Yn bennaf, roedd angen iddynt baratoi ar gyfer y rhaglen ddiwygio yn GIG Cymru, a arweiniodd at eu diddymu, a sefydlu'r Bwrdd Iechyd newydd ar 1 Hydref 2009. Cyfrannodd rhagflaenwyr y Bwrdd Iechyd at y trefniadau pontio o fewn cymuned iechyd Abertawe Bro Morgannwg (ABM). Nod y trefniadau hyn oedd rheoli'r risgiau o ran parhad busnes ac adnoddau ariannol a dynol a'r risgiau niferus eraill sy'n gysylltiedig â'r rhaglen ddiwygio.
4. Roedd y trefniadau hefyd yn cwmpasu cyfnod cyfrifyddu'r broses ddiddymu a chyflwyno Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.
5. Canolbwyntiodd fy ngwaith yn ystod y cyfnod hwn ar archwilio datganiadau ariannol ac adroddiadau etifeddiaeth y cyrff sy'n dirwyn i ben a rhoi casgliad ar b'un a oedd gan y cyrff drefniadau priodol ar waith yn ystod y cyfnod i'w helpu i gyflawni darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran eu defnydd o adnoddau. Roedd y gwaith yn seiliedig ar elfennau allweddol o'm cyfrifoldebau fel y'u nodir yn y Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu (y Cod)[1].
6. Nodwyd y ffioedd archwilio ar gyfer y gwaith yn ystod y cyfnod hwn yn y Strategaethau Archwilio y cytunwyd arnynt ar gyfer pob corff rhagflaenol.

---

[1] Gwnaf sawl cyfeiriad yn y Llythyr hwn at ganllawiau a dogfennaeth a gyflwynwyd gennyf, gan gynnwys y Cod Ymarfer Archwilio. Roedd hyn yn berthnasol i'r cyfnod archwilio cyfan ac mae'n cyfeirio at y Datganiad o Gyfrifoldebau Archwilwyr ac Arolygwyr a Chyrff a Archwilir ac a Arolygir sy'n crynhoi cyfrifoldebau allweddol archwilwyr. Cynhaliwyd fy archwiliad yn unol â'r egwyddorion a nodwyd yn y Datganiad hwnnw. Dylid ystyried fy sylwadau am ganlyniadau fy archwiliad yng nghyd-destun y cefndir mwy ffurfiol hwnnw.

7. Ceir rhagor o fanylion am yr agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyflwynwyd gennyf i sefydliadau'r GIG a ddiddymwyd, a'r Bwrdd Iechyd newydd. Trafodwyd yr adroddiadau hyn gan archwilwyr, a chytunwyd arnynt gyda swyddogion ac fe'u cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio perthnasol. Nodir yr adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf yn Atodiad 3.

8. Daeth fy ngwaith archwilio ariannol i'r casgliad bod adnoddau'r cyrff rhagflaenol, ymhob ffordd berthnasol, wedi cael eu defnyddio'n briodol a rhoddwyd cyfrif priodol amdanynt ar gyfer y cyfnod o chwe mis a ddaeth i ben 30 Medi 2009:
   - cafodd cyfrifon pob corff rhagflaenol ar gyfer y cyfnod o chwe mis a ddaeth i ben
     30 Medi 2009 eu paratoi'n briodol ac roeddent yn gywir ymhob ffordd berthnasol, er i ni dynnu sylw at yr ansicrwydd ynghylch costau gofal iechyd parhaus;
   - noda sefyllfa alldro cyfun y cyrff rhagflaenol a'r rhagolygon ariannol hyd at ddiwedd y flwyddyn bod y Bwrdd Iechyd newydd yn wynebu pwysau ariannol sylweddol yn 2010 a thu hwnt;
   - roedd systemau ariannol pwysig y cyrff rhagflaenol yn gyffredinol addas at y diben ar gyfer cyfnod cau'r cyfrifon.

9. Daeth fy ngwaith archwilio perfformiad i'r casgliad bod gan y cyrff rhagflaenol drefniadau corfforaethol priodol ar waith i'w helpu i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol, ond bydd angen i'r Bwrdd Iechyd ymdrin â nifer o heriau ac mae camau gweithredu pellach yn hanfodol er mwyn atgyfnerthu'r trefniadau llywodraethu a rheoli risg.

10. Er nad oedd gwendidau sylweddol yn nhrefniadau'r cyrff rhagflaenol i'w helpu i gyflawni darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau, roedd rhai meysydd lle roedd angen gwneud mwy o gynnydd.

11. Mae angen gwneud gwelliannau parhaus a chadarn i drefniadau rheoli risg yr hen Ymddiriedolaeth ac mae'r gwaith archwilio perfformiad diweddar a gynhaliwyd yn y sefydliadau sy'n dirwyn i ben yn amlygu nifer o heriau y bydd angen i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â hwy:
   - cafodd y cyfnod pontio o ran ad-drefnu'r GIG ei reoli'n dda ar y cyfan o fewn cymuned iechyd ABM, ond mae angen i'r Bwrdd Iechyd ganolbwyntio'n awr ar wireddu buddiannau'r ad-drefnu;
   - mae adolygiadau perfformiad wedi amlygu'r ffaith y gwnaed rhywfaint o gynnydd, ond erys meysydd pellach i'w gwella, gyda chyfleoedd i wella trefniadau rheoli galw a chefnogi dulliau gweithio amgen yn amlwg yn nifer o'n hadroddiadau;
   - mae cywirdeb data a'r trefniadau ar gyfer cofnodi gwybodaeth am restrau aros a chyflwyno adroddiadau ar y wybodaeth honno yn dderbyniol er y gellid atgyfnerthu'r dull gweithredu a ddefnyddir i gadarnhau cywirdeb data.

12. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd newydd ystyried canfyddiadau fy ngwaith perfformiad y cyfeirir ato uchod. Bydd yr adroddiad etifeddiaeth a ddygodd ynghyd brif ganfyddiadau gwaith archwilio allanol diweddar ymhob un o'r cyrff sy'n dirwyn i ben o gymorth yn hyn o beth.

13. Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid wedi cytuno â'r Llythyr hwn, a gaiff ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Mehefin 2010. Yna caiff ei gyflwyno i gyfarfod dilynol y Bwrdd a rhoddir copi i bob aelod o'r Bwrdd.

14. Fy nod yw darparu archwiliad o safon uchel sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol ac ymarferol ac sy'n ategu agenda'r Bwrdd Iechyd ei hun. Rwyf yn ddiolchgar i'ch rhagflaenwyr a'u staff am eu cymorth yn ystod yr archwiliad.

Ann-Marie Harkin
Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

Dyddiad: 18 Mehefin 2010

## Defnyddiwyd adnoddau'r cyrff rhagflaenol yn briodol ymhob ffordd berthnasol a rhoddwyd cyfrif priodol amdanynt ar gyfer y cyfnod o chwe mis a ddaeth i ben 30 Medi 2009

15. Mae'r datganiadau ariannol yn ffordd hanfodol o roi cyfrif am y modd y mae corff yn gwarchod yr adnoddau sydd ar gael iddo a'i berfformiad ariannol wrth ddefnyddio'r adnoddau hynny.

16. Fel yr archwilydd allanol i'r cyrff rhagflaenol, mae'n ofynnol i mi archwilio'r datganiadau ariannol a chyhoeddi adroddiad archwilydd. Mae'n rhaid i'r adroddiad hwn gynnwys barn ar b'un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg. Mae hefyd yn ofynnol i mi gael sicrwydd bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd, a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

17. Mae ein gwaith archwilio ariannol yn cwmpasu'r meysydd allweddol canlynol:
    - Datganiadau ariannol (neu gyfrifon)
    - Cyflwr ariannol
    - Rheoli ariannol
    - Systemau ariannol

### Cafodd cyfrifon chwe mis pob corff rhagflaenol ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 30 Medi 2009 eu paratoi'n briodol ac roeddent yn gywir ymhob ffordd berthnasol, er i ni dynnu sylw at yr ansicrwydd ynghylch costau gofal iechyd parhaus

18. Eleni roedd yn ofynnol i'r cyrff gyflwyno eu cyfrifon chwe mis heb eu harchwilio i Swyddfa Archwilio Cymru erbyn 30 Tachwedd 2009. Bodlonodd y cyrff y terfyn amser hwn ac ategwyd y cyfrifon gan bapurau gwaith ac atodlenni o safon dda, a'i gwnaeth yn bosibl i'r cyfrifon archwiliedig gael eu cyflwyno i Lywodraeth y Cynulliad erbyn 1 Mawrth 2010. Roedd hwn yn gyflawniad arbennig o ystyried bod llai o staff cyllid ar gael o ganlyniad i'r gwaith ychwanegol gofynnol i weithredu'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol a pharatoi ar gyfer y gwaith o ad-drefnu'r GIG.

19. Mae'n ofynnol i mi o dan Safon Archwilio Ryngwladol (ISA) 260 gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n codi o'm gwaith i'r 'rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu' (y Pwyllgor Archwilio) cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Cyflwynodd fy Mhartner Ymgysylltu adroddiad ar y materion hyn i'r Pwyllgor Archwilio cyn i bob cyfres o gyfrifon terfynol gael ei chymeradwyo gan y Bwrdd a'i llofnodi gan y Swyddog Atebol. Nodir y materion allweddol yn Arddangosyn 1.

**Arddangosyn 1: Gofynion adrodd ISA 260**

| Gofyniad adrodd | Ymateb yr Archwilydd |
|---|---|
| Addasiadau disgwyliedig i adroddiad yr archwilydd | Gwneuthum addasu fy adroddiad i gynnwys nodyn pwysleisio mater yn tynnu sylw at yr ansicrwydd ynghylch costau gofal iechyd parhaus, yn sgîl ceisiadau a gafwyd am ad-daliadau o gostau gofal parhaus nas aseswyd eto. |
| Camddatganiadau nas addaswyd | Nid oedd yr addasiadau i'r cyfrifon yn dilyn ein harchwiliad yn berthnasol.<br>Cafwyd cynrychioliadau priodol gan y Bwrdd i gyfiawnhau'r rhesymau dros beidio ag addasu. |
| Gwendidau perthnasol yn y systemau cyfrifyddu a rheolaeth fewnol a nodwyd yn ystod yr archwiliad | Ni chododd unrhyw faterion. |
| Safbwyntiau ynglŷn â'r agweddau ansoddol ar arferion cyfrifyddu ac adroddiadau ariannol yr endid | Ni chododd unrhyw faterion. |
| Materion y mae'n ofynnol yn benodol iddynt, yn ôl safonau archwilio eraill, gael eu cyfleu i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu | Ni chododd unrhyw faterion. |
| Unrhyw faterion llywodraethu eraill sy'n ymwneud â'r archwiliad | Ni chododd unrhyw faterion. |

20. Deuthum i'r casgliad fod holl gyfrifon y rhagflaenwyr yn rhoi darlun cywir a theg o'u sefyllfa ar 30 Medi 2009. Roeddwn hefyd yn ddigon bodlon bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.
21. Ymhob un o gyfrifon cau'r BILlau, gwneuthum gynnwys nodyn pwysleisio mater gyda'm hadroddiad archwilio. Roedd yn tynnu sylw at yr ansicrwydd ynghylch costau gofal iechyd parhaus yn sgîl ceisiadau a gafwyd i ad-dalu costau gofal parhaus nas aseswyd eto.
22. Rhoddais fy marn ar y cyfrifon a'u cyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol yn unol â'r amserlenni gofynnol.

## Noda sefyllfa alldro cyfun y cyrff rhagflaenol a'r rhagolygon ariannol hyd at ddiwedd y flwyddyn bod y Bwrdd Iechyd newydd yn wynebu pwysau ariannol sylweddol yn 2010 a thu hwnt

23. Ar y cyfan, llwyddodd y cyrff i reoli eu cynlluniau gwariant ar gyfer y cyfnod *fwy neu lai* yn unol â'u cyllidebau. Mae'r pwysau ariannol allweddol sy'n wynebu'r cyrff, sy'n ymwneud yn bennaf â chostau ychwanegol o geisiadau gofal iechyd parhaus, wedi cyfrannu at y sefyllfa a ragwelir ar gyfer y flwyddyn lawn.

24. Ar gyfer 2009-10, roedd cymuned iechyd ABM yn wynebu diffyg posibl o £5.4 miliwn o'r sefydliadau rhagflaenol (gorwariant o £1.0 miliwn gan Ymddiriedolaeth GIG ABM, gorwariant o £6.9 miliwn gan Fwrdd Iechyd Lleol Abertawe, tanwariant o £2.5 miliwn gan Fwrdd Iechyd Lleol Castell-nedd Port Talbot a £dim gan Fwrdd Iechyd Lleol Pen-y-bont ar Ogwr). Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd aros o fewn ei derfyn adnoddau ar gyfer 2009-10. I'w helpu i gyflawni hyn, mae wedi cael tua £5.5 miliwn o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth y Cynulliad, ac wedi rhoi amrywiol raglenni arbedion effeithlonrwydd ar waith.

25. Wrth fynd i'r dyfodol, mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod rhaglenni arbedion effeithlonrwydd 2010-11 yn realistig, a bod y rheolwyr yn monitro perfformiad ac yn cymryd camau priodol os na fydd targedau yn cael eu cyflawni. Mae hyn yn arbennig o bwysig er mwyn gwireddu buddiannau'r broses o ad-drefnu'r GIG.

26. Mae gan y Bwrdd Iechyd raglen arbedion effeithlonrwydd uchelgeisiol ar waith ar gyfer £77.4 miliwn, y bydd angen ei chyflawni er mwyn sicrhau alldro mantoledig ar gyfer 2010-11. Mae hyn yn awgrymu mai dim ond os bydd y Bwrdd Iechyd yn cymryd camau mwy radical y gellir cyflawni sefydlogrwydd ariannol.

27. Byddwn yn diweddaru'r safbwynt hwn yn ein Llythyr Archwilio nesaf yn ystod hydref 2010.

### Roedd systemau ariannol pwysig y cyrff rhagflaenol yn gyffredinol addas at y diben ar gyfer cyfnod cau'r cyfrifon

28. Roedd ein hadolygiad o systemau ariannol y cyrff yn cynnwys dogfennu'r systemau ariannol pwysig a, lle bo angen, yn profi gweithrediad rheolaethau mewnol.

29. Rydym wedi dod i'r casgliad y gellir dibynnu ar systemau ariannol pwysig pob un o gyrff y GIG a ddiddymwyd i gynhyrchu canlyniadau sy'n gywir mewn ffyrdd perthnasol.

## Roedd gan y cyrff rhagflaenol drefniadau corfforaethol priodol ar waith i'w helpu i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol, ond bydd angen i'r Bwrdd Iechyd ymdrin â nifer o heriau ac mae camau gweithredu pellach yn hanfodol er mwyn atgyfnerthu'r trefniadau llywodraethu a rheoli risg ar draws y Bwrdd Iechyd newydd

### Er nad oedd gwendidau sylweddol yn nhrefniadau'r cyrff rhagflaenol i'w helpu i gyflawni darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau, roedd rhai meysydd lle roedd angen gwneud mwy o gynnydd

30. Wrth archwilio cyfrifon y cyrff rhagflaenol bob cyfnod, mae'n ofynnol i mi o dan adran 61(3) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fodloni fy hun eu bod

wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran eu defnydd o adnoddau. Mae'r Cod hefyd yn adlewyrchu'r gofyniad hwn. Nodir fy nghyfrifoldebau a'm casgliad ffurfiol ar drefniadau'r cyrff ar gyfer y cyfnod o chwe mis yn Atodiad 1.

31. At ddibenion fy ngwaith, gwerthusais systemau pob corff yn erbyn nifer o gwestiynau, a nodir yn Atodiad 2. Ar gyfer pob cwestiwn, ystyriais a oedd bylchau yn y trefniadau y disgwylir iddynt fod ar waith, ac arwyddocâd y bylchau hynny.

32. Yn dilyn fy adolygiad o drefniadau'r cyrff rhagflaenol ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran eu defnydd o adnoddau, deuthum i'r casgliad, er gwaethaf rhai gwendidau parhaus o ran trefniadau'r Ymddiriedolaeth ragflaenol, nad oedd unrhyw wendidau sylweddol a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i mi roi barn anffafriol. Fodd bynnag, mae rhai materion y bydd angen i'r corff olynol fynd i'r afael â hwy, fel y nodir isod.

## Mae angen gwelliannau cadarn a pharhaus o ran trefniadau rheoli risg yr hen Ymddiriedolaeth

33. Ar 30 Medi 2009, roedd trefniadau rheoli risg yr Ymddiriedolaeth ragflaenol yn cael eu datblygu o hyd yn dilyn y penderfyniad i uno Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg ac Ymddiriedolaeth GIG Abertawe ar 1 Ebrill 2008. Yn ein Llythyr Archwilio Blynyddol ar gyfer 2008-09 i'r Ymddiriedolaeth, gwnaethom amlygu pedwar prif fater lle roedd angen gweithredu ar frys, sef:

- Ni wnaeth y Pwyllgor Llywodraethu Gofal Iechyd gyfarfod tan fis Hydref 2008. Cyflwynwyd adroddiadau ar faterion llywodraethu clinigol i uwch aelodau o staff a chyfarwyddwyr gweithredol ond ni chyfrannodd y cyfarwyddwyr anweithredol.
- Ni chyflwynwyd adroddiad risg i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth tan fis Chwefror 2009. Er bod adroddiadau i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth yn ystod y flwyddyn wedi cyfeirio at feysydd risg penodol, hwn oedd yr adroddiad cyfun cyntaf a, chyn mis Chwefror 2009, nid yw'n glir a oedd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn gwbl ymwybodol o'r holl risgiau a oedd yn wynebu'r Ymddiriedolaeth.
- Nid oedd cofrestr risg a oedd yn cynnwys yr Ymddiriedolaeth gyfan ac, mewn rhai achosion, roedd cofrestrau risg cyfarwyddiaethau yn anghyflawn.
- Roedd perfformiad o ran ymdrin â chwynion wedi gwaethygu'n sylweddol. Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud newidiadau ac wedi rhoi gwybod i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth am y sefyllfa, nid oedd y sefyllfa wedi gwella eto. Roedd y systemau ar gyfer nodi tueddiadau a oedd yn dod i'r amlwg a sicrhau bod y gwersi a oedd yn gysylltiedig â chwynion wedi'u dysgu hefyd yn aneglur.

34. Mae Prif Weithredwr, cyfarwyddwyr gweithredol a chyfarwyddwyr clinigol y Bwrdd Iechyd yn gwerthfawrogi bod angen trefniadau llywodraethu corfforaethol a chlinigol priodol a chadarn sy'n gweithredu'n effeithiol. Rydym hefyd yn ymwybodol bod y rheolwyr wedi parhau i weithio, yn ganolog ac ar lefel cyfarwyddiaethau, i ddatblygu'r trefniadau a oedd ar waith drwy ran olaf 2008-09.

35. Fodd bynnag, er y bu rhywfaint o welliant o ran perfformiad mewn perthynas â chwynion ym mis Rhagfyr 2009 a mis Ionawr 2010, nodwn fod perfformiad wedi gwaethygu eto ers mis Chwefror 2010, gyda gwybodaeth gyfyngedig, os o gwbl, yn cael ei chyflwyno i'r Bwrdd Iechyd am dueddiadau sy'n dod i'r amlwg. Mae'n bwysig bod y Bwrdd Iechyd yn canfod y rhesymau dros y dirywiad hwn o ran perfformiad a'i fod yn cymryd camau cadarn a pharhaus i ddatrys y problemau yn y maes hwn.

## Mae'r gwaith archwilio perfformiad diweddar a gynhaliwyd yn y sefydliadau sy'n dirwyn i ben yn amlygu nifer o heriau y bydd angen i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â hwy

36. Er mwyn cefnogi datblygiad sefydliad newydd y GIG, rwyf wedi paratoi adroddiad etifeddiaeth sy'n cynnwys crynodeb o ganfyddiadau a negeseuon allweddol gwaith archwilio perfformiad diweddar a gynhaliwyd yn y cyrff sy'n dirwyn i ben.

37. Mae'r gwaith hwn wedi dangos bod gan y gymuned iechyd drefniadau rheoli ariannol cyffredinol gadarn ac y gall ddangos rhai gwelliannau mewn perfformiad. Fodd bynnag, yn erbyn cefndir o heriau ariannol sylweddol, mae'r Bwrdd Iechyd bellach yn wynebu agenda heriol o ailgynllunio gwasanaethau er mwyn gwireddu buddiannau'r broses ad-drefnu. Mae angen iddo hefyd ymdrin â'r meysydd i'w gwella a nodwyd gan waith archwilio diweddar.

### Cafodd y cyfnod pontio o ran ad-drefnu'r GIG ei reoli'n dda ar y cyfan o fewn cymuned iechyd ABM, ond mae angen i'r Bwrdd Iechyd ganolbwyntio'n awr ar wireddu buddiannau'r gwaith o ad-drefnu

38. Ategwyd y broses o greu'r Bwrdd Iechyd gan raglen o waith pontio a oedd yn cynnwys dull gweithredu cydlynol ar draws y gymuned gyfan. Ar y cyfan, roeddwn yn fodlon bod y broses bontio wedi'i rheoli'n dda ac nad oedd unrhyw faterion sylweddol i'w nodi. Mae'r dyfarniad hwn yn seiliedig ar y ffaith bod rhaglen bontio gynhwysol ar waith wedi'i hategu gan fframwaith rheoli prosiect cadarn, a chyfnod trosglwyddo didrafferth i'r Bwrdd newydd. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd nawr gymryd camau i wireddu buddiannau'r broses ad-drefnu. Yn benodol:

- er gwaethaf trefniadau rheoli ariannol cyffredinol gadarn, mae'r pwysau ariannol a wynebir erbyn hyn, na welwyd mo'u tebyg o'r blaen, yn gofyn am newidiadau strategol sylweddol er mwyn galluogi'r Bwrdd Iechyd i gyflawni targedau ariannol a gweithredol;
- er bod trefniadau rheoli asedau'r Bwrdd Iechyd yn gyffredinol gadarn, mae'r gwaith o reoli ystad y Bwrdd Iechyd yn debygol o fod yn heriol yn y dyfodol;
- mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod yr angen i sicrhau trefniadau llywodraethu cadarn ar draws cyfarwyddiaethau ac i atgyfnerthu ei drefniadau rheoli risg.

### Mae adroddiadau perfformiad wedi amlygu gwelliant mewn rhai meysydd, ond, mewn meysydd eraill, mae cyfleoedd i wneud gwelliannau pellach yn arbennig o ran rheoli galw a chefnogi dulliau gweithio amgen

39. Cyflwynodd yr adroddiad etifeddiaeth grynodeb o ganfyddiadau allweddol ystod o adolygiadau archwilio perfformiad ar bynciau penodol. Dangosodd yr adolygiadau hyn fod gwelliannau wedi'u gwneud mewn nifer o feysydd gwasanaeth, ond gwnaethant hefyd amlygu cyfleoedd i sicrhau defnydd mwy effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau. Er enghraifft:

- gwnaed cynnydd da wrth leihau lefelau absenoldeb oherwydd salwch, ond roedd y cyfraddau yn amrywio ar draws y Bwrdd Iechyd;
- roedd cyfleoedd i weithio'n wahanol, er enghraifft, drwy adolygu rolau a'r cymysgedd sgiliau;
- mae cyfleoedd i wella ansawdd a chosteffeithiolrwydd gwasanaethau mamolaeth ymhellach.

40. Mae ymrwymiad amlwg i weithio mewn partneriaeth i wella'r gwasanaethau a ddarperir ar draws y gymuned iechyd, ond nododd ein hadroddiadau y gellid defnyddio trefniadau gwaith partneriaeth yn fwy effeithiol i reoli galw mewn nifer o feysydd.
Er enghraifft:

- Mae cyflyrau cronig yn dal i osod baich sylweddol ar wasanaethau iechyd lleol, yn arbennig y sector aciwt, gyda'r angen i ailanelu tuag at ofal yn y gymuned yn parhau'n her sylweddol.
- Mae cyfleoedd sylweddol i wella'r broses o reoli derbyniadau dewisol - gellid rhyddhau mwy o gapasiti drwy leihau hyd arhosiad cleifion llawfeddygol, ac mae cyfleoedd i weithio gyda rhanddeiliaid allweddol eraill i helpu i leihau nifer y derbyniadau meddygol brys.
- Rheoli galw oedd un o'r ffactorau a oedd yn rhwystro gwelliannau yn uned Damweiniau ac Achosion Brys Treforys, lle roedd lefelau cleifion yn uwch na'r cyfartaledd, ac yn uned Damweiniau ac Achosion Brys Tywysoges Cymru, lle roedd lefelau cleifion ar lefelau cyfartalog.
- Roedd potensial i leihau'r galw cynyddol am wasanaethau delweddu. Ar safle Tywysoges Cymru, roedd y galw am wasanaethau delweddu yn arwain at dwf mewn rhestrau aros. Yn Abertawe, lefel galw'r uned damweiniau ac achosion brys oedd y lefel uchaf ond un yn y wlad o ran archwiliadau delweddu, ac roedd yn llawer uwch na lefel nodweddiadol ymddiriedolaethau o faint a chymhlethdod tebyg.
- Roedd cyfleoedd i wella trefniadau rheoli galw o fewn gwasanaethau patholeg hen sefydliadau Bro Morgannwg ac Abertawe.

### Mae data rhestrau aros yn gywir ac mae'r trefniadau ar gyfer cofnodi gwybodaeth am restrau aros a chyflwyno adroddiadau ar y wybodaeth honno yn dderbyniol, er y gellid atgyfnerthu'r dull gweithredu a ddefnyddir i gadarnhau cywirdeb data

41. Yn ogystal â pharatoi adroddiad etifeddiaeth mewn perthynas â'r cyrff rhagflaenol, rwyf wedi cwblhau adolygiad o gywirdeb data rhestrau aros yn y Bwrdd Iechyd yn ddiweddar. Mewn adroddiad i'r Bwrdd Iechyd ym mis Mawrth 2010, canfu'r adolygiad fod data'r rhestrau aros yn gywir a bod y trefniadau ar gyfer cofnodi gwybodaeth am restrau aros a chyflwyno adroddiadau ar y wybodaeth honno yn dderbyniol.

42. Mae'r data yn gyffredinol yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth y Cynulliad ac mae'r rhan fwyaf o'r elfennau arfer da o ran cofnodi gwybodaeth am restrau aros a chyflwyno adroddiadau ar y wybodaeth honno ar waith. Fodd bynnag, gellid atgyfnerthu'r dull a ddefnyddir i gadarnhau cywirdeb y data gan nad oes unrhyw archwiliadau o gywirdeb data Atgyfeiriad i Gael Triniaeth (RTT) yn cael

eu cynnal fel mater o drefn ar hyn o bryd. Er bod rhai mân achosion o anghywirdeb yn y data a bod cyfleoedd i wella rhai agweddau ar y gwaith o gofnodi'r data a chyflwyno adroddiadau arno, nid oedd y rhain yn ddigon pwysig i danseilio cywirdeb cyffredinol rhestrau aros y Bwrdd Iechyd, na'i drefniadau ar gyfer cofnodi gwybodaeth am restrau aros a chyflwyno adroddiadau ar y wybodaeth honno.

43. Mae ein hasesiad yn seiliedig ar systemau a phrosesau TG cyfredol, sy'n dderbyniol. Nodwn fod cynlluniau datblygedig ar waith i ddisodli PIMS a system iPM ag un system gweinyddu cleifion.

44. Mae'r gwaith archwilio perfformiad y cyfeiriais ato mewn strategaethau archwilio blaenorol yn rhan o raglen dreigl o astudiaethau cenedlaethol a lleol. Er bod rhywfaint o'r gwaith hwn wedi'i gwblhau a'i gyflwyno i gyrff priodol y GIG a ddiddymwyd, mae astudiaethau eraill yn mynd rhagddynt o hyd. Byddwn yn cyflwyno adroddiad ar y gwaith hwn i'r Bwrdd Iechyd newydd. Caiff adroddiadau ar yr holl waith sy'n mynd rhagddo eu cyflwyno i Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd newydd. Bydd y Llythyr Archwilio Blynyddol ar gyfer y corff yn crynhoi'r adroddiadau hyn. Mae Atodiad 4 yn crynhoi sefyllfa'r amryw brosiectau archwilio perfformiad a nodwyd gan strategaethau archwilio diweddar cyrff y GIG a ddiddymwyd.

Atodiad 1

# Casgliad ar drefniadau'r cyrff rhagflaenol ar gyfer y cyfnod o chwe mis a ddaeth i ben 30 Medi 2009 i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran eu defnydd o adnoddau

**Cyfrifoldebau'r Swyddog Atebol**

Mae'r Swyddog Atebol ar gyfer pob un o gyrff y GIG yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnydd corff y GIG o adnoddau, a sicrhau stiwardiaeth a llywodraethu priodol. Mae'r Swyddog Atebol hefyd yn gyfrifol am adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hyn yn rheolaidd.

**Cyfrifoldebau'r Archwilydd**

Mae cyfrifoldeb arnaf o dan adran 61(3) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i gasglu o’m harchwiliad o gyfrifon blynyddol pob un o gyrff y GIG a gwybodaeth berthnasol arall a wyf yn fodlon iddo wneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau. At ddibenion fy ngwaith yn y maes hwn, rwyf wedi asesu 'trefniadau priodol' yn bennaf fel trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol a rheoli ariannol sefydliad, y diffinnir elfennau pwysig ohonynt ym mharagraff 48 o'r Cod.

Cyflwynaf adroddiad os daw materion o bwys i'm sylw sy'n fy atal rhag casglu bod corff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol o'r fath. Wrth ymgymryd â'm gwaith, nid wyf wedi ystyried a yw’r trefniadau sydd ar waith yn cynrychioli'r holl drefniadau a allai fod ar waith. Nid yw'n ofynnol ychwaith i mi ystyried, ac nid wyf wedi ystyried fel rhan o'r agwedd hon ar fy ngwaith, effeithiolrwydd y trefniadau sydd ar waith ymhob un o gyrff y GIG ar gyfer sicrhau gwerth am arian yn ystod y cyfnod a adolygir.

**Casgliad**

Mae'r casgliadau canlynol wedi'u seilio ar waith a gynhaliwyd fel rhan o'm harchwiliadau o'r cyfrifon chwe mis ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 30 Medi 2009 ymhob un o gyrff y GIG, ac mae'n gyfyngedig i'r gwaith hwnnw. Rwyf hefyd wedi seilio fy nghasgliadau ar unrhyw wybodaeth arall yr ystyriais ei bod yn berthnasol i'm harchwiliad, i gadarnhau, ymhob ffordd berthnasol, pa drefniadau a oedd ar waith gan bob un o gyrff y GIG yn ystod y cyfnod i'w helpu i gyflawni ei gyfrifoldeb i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Yn seiliedig ar y Datganiadau o Reolaeth Fewnol, ac o ganlyniad i'r gwaith a gynhaliwyd fel rhan o'm harchwiliadau o gyfrifon chwe mis pob un o gyrff y GIG ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 30 Medi 2009, a'r holl wybodaeth arall yr ystyriais ei bod yn berthnasol, rwy'n fodlon ar y cyfan bod trefniadau i helpu i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd a wneir o adnoddau ar waith yng nghyrff canlynol y GIG:

- Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (yn amodol ar y materion y cyfeirir atynt ym mharagraffau 33 i 35)
- BILl Abertawe
- BILl Castell-nedd Port Talbot
- BILl Pen-y-bont ar Ogwr

| | |
|---|---|
| Gillian Body<br>Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Mehefin 2010 | Swyddfa Archwilio Cymru<br>24 Heol y Gadeirlan<br>Caerdydd<br>CF11 9LJ |

Atodiad 2

# Meini prawf ar gyfer asesu trefniadau'r cyrff rhagflaenol yn ystod y chwe mis a ddaeth i ben 30 Medi 2009 i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran eu defnydd o adnoddau

| Trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol a rheoli ariannol | Cwestiynau ar drefniadau |
|---|---|
| **Pennu amcanion, llunio polisïau a gwneud penderfyniadau** | A yw'r Corff wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer pennu, adolygu a gweithredu ei amcanion strategol a gweithredol? |
| **Diwallu anghenion defnyddwyr a threthdalwyr** | A yw'r Corff wedi sefydlu dulliau o gyfathrebu â chleifion a'u cynrychiolwyr, a rhanddeiliaid eraill yn cynnwys partneriaid, ac a oes trefniadau monitro i sicrhau bod negeseuon allweddol ynglŷn â gwasanaethau yn cael eu hystyried? |
| **Cydymffurfiaeth â pholisïau sefydledig** | A yw'r Corff wedi rhoi trefniadau ar waith i gynnal system rheolaeth fewnol gadarn, yn cynnwys trefniadau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau, a pholisïau a gweithdrefnau mewnol? |
| **Rheoli risgiau gweithredol ac ariannol** | A yw'r Corff wedi rhoi trefniadau ar waith i reoli ei risgiau busnes pwysig? |
| **Rheoli adnoddau ariannol ac adnoddau eraill** | A yw'r Corff wedi rhoi trefniadau ar waith i werthuso a gwella'r gwerth am arian y mae'n ei gyflawni o ran ei ddefnydd o adnoddau?<br>A yw'r Corff wedi rhoi strategaeth ariannol, cyllidebau a rhaglen gyfalaf tymor canolig ar waith ac iddynt sail gadarn a chyda'r nod o gyflawni ei flaenoriaethau strategol?<br>A yw'r Corff wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod ei wariant yn cyfateb i'r adnoddau sydd ar gael?<br>A yw'r Corff wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer rheoli a monitro perfformiad yn erbyn cyllidebau, gan gymryd camau adferol lle y bo'n briodol, a chyflwyno adroddiad ar y canlyniadau i uwch reolwyr a'r Bwrdd?<br>A yw'r Corff wedi rhoi trefniadau ar waith i reoli ei sail asedau? |
| **Monitro ac adolygu perfformiad** | A yw'r Bwrdd wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer monitro perfformiad a chraffu arno, i nodi amrywiannau posibl yn erbyn amcanion, safonau a thargedau strategol, ar gyfer gweithredu lle bo angen a chyflwyno adroddiad i'r Bwrdd?<br>A yw'r Corff wedi rhoi trefniadau ar waith i fonitro ansawdd ei wybodaeth gyhoeddedig am berfformiad, ac i gyflwyno adroddiad ar y canlyniadau i aelodau'r Bwrdd? |
| **Safonau ymddygiad priodol ac ati** | A yw'r Corff wedi rhoi trefniadau ar waith sydd wedi'u hanelu at hyrwyddo a sicrhau gonestrwydd a phriodoldeb wrth gynnal ei fusnes? |

## Atodiad 3

# Adroddiadau a gyflwynwyd ers mis Medi 2009

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Strategaethau archwilio** | |
| • Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg | Chwefror 2010 |
| • Strategaethau chwe mis ar gyfer:<br>– Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg<br>– BILl Abertawe<br>– BILl Castell-nedd Port Talbot<br>– BILl Pen-y-bont ar Ogwr | Medi 2009 |
| **Archwiliad o'r Cyfrifon Ariannol ac Adroddiad i'r Rhai sy'n Gyfrifol am Lywodraethu** | |
| • Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg | Chwefror 2010 |
| • BILl Abertawe | Chwefror 2010 |
| • BILl Castell-nedd Port Talbot | Chwefror 2010 |
| • BILl Pen-y-bont ar Ogwr | Chwefror 2010 |
| Adroddiad etifeddiaeth | Ionawr 2010 |
| Adroddiadau eraill ar berfformiad | Gweler Atodiad 4 |

Atodiad 4

## Adroddiadau archwilio perfformiad

Mae'r tabl canlynol yn dangos y trefniadau cyflwyno adroddiadau ar gyfer prosiectau archwilio perfformiad, sydd wedi'u nodi yn strategaethau archwilio diweddar y cyrff rhagflaenol.

**Trefniadau cyflwyno adroddiadau ar gyfer gwaith archwilio perfformiad**

| Astudiaeth | Cyflwynwyd i gorff y GIG a ddiddymwyd | Cyflwynwyd eisoes i'r Bwrdd Iechyd newydd | Heb ei gyflwyno eto |
|---|---|---|---|
| Staffio wardiau | Trafodwyd/cytunwyd ar y canfyddiadau | | ✓ |
| Ad-drefnu'r GIG | ✓ | ✓ | |
| Adroddiad etifeddiaeth (cymuned iechyd) | | ✓ | |
| Cywirdeb data rhestrau aros | | ✓ | |
| Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion | | | ✓ |
| Arlwyo mewn Ysbytai | | | ✓ |
| Gwireddu Buddiannau'r Contract Meddygon Ymgynghorol | | | ✓ |
| Adolygiad o'r Cynlluniau Gwella Gwasanaethau – Ymddiriedolaeth GIG ABM | ✓ | ✓ | |
| Dull o weithredu argymhellion archwiliadau allanol - Ymddiriedolaeth GIG ABM | | | ✓ |

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660
E-bost: wales@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk